

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Gofal Sylfaenol y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Chwefror 2022

## **1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliad 31 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y Prif Reoliadau") mewn perthynas â Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol o ganlyniad i ddiwygu adran 15(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod deintyddion sy'n dal diploma Ewropeaidd priodol yn parhau i fod yn esempt rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen cyn eu bod yn gymwys i'w cynnwys ar Restr Cyflawnwyr Deintyddol.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o fewn adran 63(3) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas â rhestr cyflawnwyr deintyddol, gan gynnwys o ran ar ba sail y caniateir neu y mae rhaid derbyn neu wrthod cais i gynnwys unigolyn ar y rhestr.

Mae adrannau 203(9) a (10) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn darparu y caniateir i bwerau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf gael eu harfer er mwyn gwneud y ddarpariaeth lawn y mae'r pŵer yn ymestyn iddi neu unrhyw ddarpariaeth lai – drwy eithriad neu fel arall, ac yn cynnwys pwerau i wneud darpariaethau diwygio.

Gall Gweinidogion Cymru ddibynnu ar y pwerau hyn i ddiwygio rheoliad 31(5)(a) o'r Rheoliadau Rhestr Cyflawnwyr i gyfeirio at ddarpariaeth amgen o fewn Deddf Deintyddion 1984, a chyflawni'r bwriad polisi.

Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## **4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Diben y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol a sefydlwyd gan y Prif Reoliadau yw sicrhau bod deintyddion yn addas i ymgymryd â gwasanaethau deintyddol sylfaenol ac i amddiffyn cleifion rhag unrhyw gyflawnwyr nad ydynt yn addas, neu y gall fod amhariad ar eu heffeithlonrwydd i gyflawni'r gwasanaethau hynny.

Cyn 1 Ionawr 2021, roedd ymgeiswyr a oedd yn dal cymwysterau'r UE yn esempt rhag ymgymryd â hyfforddiant sylfaen deintyddol sy'n ofynnol fel rhan o'r broses gofrestru ar y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol. Mae angen i ddeintyddol fod ar y Rhestr Cyflawnwyr er mwyn ymgymryd â deintyddiaeth y GIG. O dan reoliad 31(5)(a) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr

Cyflawnwyr) (Cymru) 2004, roedd gan unrhyw ymgeisydd â chymhwyster Ewropeaidd perthnasol yr esemptiad hwn. Mae rheoliad 31(5)(a) yn datgan:

*“(5) A dentist is exempt from the requirement to undertake foundation training if—  
(a) he or she is registered as a dentist by virtue of section 15(1)(b) of the Dentists Act (registration of nationals of member States who hold appropriate European diplomas) or  
is in any other way a person in respect of whom a member State is prohibited by EU law from imposing such a requirement”*

O dan Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2020, gwnaed diwygiad i Ddeddf Deintyddion 1984 a ddileodd adran 15(1)(b). Mae cymwysterau Ewropeaidd perthnasol bellach wedi eu cofrestru o dan adran 15(1)(c) sydd wedi ei hystemyn i gynnwys cymwysterau Ewropeaidd yn ogystal â chymwysterau tramor. Mae hyn yn golygu nad yw'r esemptiad a roddir gan y Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr drwy gyfeirio at adran 15(1)(b) bellach yn cwmpasu'r rhai sydd â chymwysterau'r UE. Nid yw diddymu adran 15(1)(b) yn effeithio ar ymgeiswyr o'r Swistir gan eu bod yn parhau i gael eu cwmpasu gan y ddarpariaeth arbed yn Rhan 2 o Atodlen 3 i Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Canlyniad y camgymeriad hwn wrth ddiwygio deddfwriaeth y DU yw bod ymgeiswyr sydd â chymwysterau'r UE yn cael eu cynnwys yn y grŵp o ymgeiswyr sy'n gorfod ymgymryd â hyfforddiant sylfaen deintyddol er mwyn gwneud cais i'r Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r bwriad polisi, sef sicrhau bod ymgeiswyr â chymwysterau'r UE yn parhau i allu cofrestru yn y DU o dan amodau tebyg ag y gallent o'r blaen, gan gynnwys cael esemptiad rhag hyfforddiant sylfaen deintyddol.

Mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno'n awr gan mai dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth y DU wedi tynnu ein sylw at y mater.

## **5. Ymgynghori**

Ni fydd Rheoliadau 2022 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gan fod y Rheoliadau'n darparu diwygiad cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer bach o unigolion ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.